

Dydd Gwener 10<sup>fed</sup> Chwefror 2017

Annwyl aelodau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Casnewydd a'r Tîm Cymorth

Diolch am roi'r cyfle i mi ddarparu adborth ar y fersiwn ddrafft o'ch Asesiad Llesiant Lleol a anfonwyd i'r swyddfa yn Rhagfyr 2016.

Y peth cyntaf yr wyf am ei wneud yw gwneud yn glir fy mod i'n deall yn llwyr yr heriau yr ydych wedi eu hwynebu wrth ddatblygu'r asesiad y tro hwn, ac rwy'n llongyfarch eich tîm ar eu gwaith caled a'u hymdrechion.

Fy mhrif ffocws wrth ddarparu'r adborth hwn yw eich helpu i ystyried i ba raddau y bydd y gwaith a wnaed gennych hyd yn hyn yn eich helpu i bennu eich cydamcanion ac ymgymryd â chynllunio llesiant. I mi, y Byrddau Gwasanaethau Lleol sy'n rhoi un o'r cyfleoedd mwyaf i'r sector cyhoeddus yng Nghymru newid y ffordd yr ydym yn gwneud pethau yng Nghymru a llunio penderfyniadau ar y cyd a darparu gwasanaethau a fydd o fudd i genedlaethau'r dyfodol.

Mae eich asesiad chi yn rhan allweddol o hyn, ac er fy mod yn deall na fydd, o bosibl, yn ddarlun llawn ar yr adeg y byddwch yn ei gyhoeddi, y mae'n bwysig ei fod yn rhoi darlun clir a deallus o lesiant Casnewydd a llesiant eich cymunedau, sy'n berthnasol yn awr ac i'r dyfodol. **Dylai eich asesiad eich galluogi i nodi'n glir yr heriau allweddol ar gyfer eich ardal a'ch cymunedau, gan ddatblygu cydamcanion sy'n mynd i'r afael â'r heriau hyn.**

Atodaf ddogfen sy'n rhoi adborth manwl ar eich asesiad drafft, a'r hyn y dylech ystyried adeiladu arno yn y tymor byr wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant, ac yn nhermau asesu llesiant yn y dyfodol.

Yn ystod 2017-18, un o'ch tasgau allweddol fydd datblygu eich cydamcanion llesiant fel rhan o'ch Cynllun Llesiant. Mae'r ddeddfwriaeth yn gofyn eich bod yn ceisio cyngor gennyf ar sut mae cymryd camau i gyflawni eich amcanion yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy (pum dull o weithio).

Nodaf isod rai o'r pethau y byddaf yn chwilio amdanynt wrth i'm swyddfa barhau i weithio gyda chi. Yn fy marn i, mae'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) sydd wedi dangos eu bod eisoes yn rhoi sylw i'r pum dull o weithio mewn sefyllfa dda i ddatblygu amcanion a Chynlluniau Llesiant, a fydd yn fanteisiol i bob sefydliad cysylltiedig o ran mwyafu eu cyfraniad cyfunol i'r nodau a mynd i'r afael â heriau sy'n pontio'r cenedlaethau.

Roeddwn yn falch o weld eich bod wedi gwneud dechrau da â'ch dull o **gynnwys pobl a chymunedau** wrth ddatblygu eich asesiad, trwy eich gwaith ymgysylltu. Byddwn yn eich annog i adeiladu ar hyn i sicrhau eich bod yn parhau i roi cyfleoedd i ystod eang o randdeiliaid a dinasyddion ymgyfrannu a dylanwadu ar ddatblygiad eich amcanion, a medru dangos bod eu mewnbwn yn cael effaith ar yr hyn a wnewch.

Mae'n amlwg bod darparu asesiad sy'n cwmpasu Casnewydd gyfan, wedi'i gefnogi gan 20 o broffiliau ardal, yn darparu sylfaen gref o dystiolaeth. Er eich bod wedi cynnwys rhywfaint o ddata ynghylch **tueddiadau tymor hir**, credaf fod cyfle i chi ganolbwyntio mwy ar y tymor hir yn eich gwaith wrth symud ymlaen, ac archwilio pa rai o'ch cymunedau sy'n arbennig o agored i'r tueddiadau tymor hir a nodwch. Sylwais fod un o'ch cwestiynau ymgysylltu yn troi o gwmpas yr hyn y byddai pobl am weld mwy neu lai ohono ymhen 20 mlynedd, sy'n ddiddorol.

Credaf fod cyfle i chi ymchwilio ymhellach i **integreiddio** polisi a heriau o dan y pedair thema (llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol), a chreu cysylltiadau cryfach â'r saith nod llesiant. Bydd hyn yn arbennig o bwysig wrth feddwl am rolau cymharol eich sefydliadau gwahanol wrth i chi **fwyafu eich cyfraniad** tuag at y nodau.

Un o elfennau allweddol y ddeddfwriaeth yw'r ffocws ar **atal problemau** rhag digwydd yn hytrach na gwneud dim mwy nag ymateb iddynt ac rwy'n gweld hyn fel blaenoriaeth allweddol ar gyfer eich cynlluniau llesiant. Mae hwn yn faes lle byddwn i'n eich annog i roi ystyriaeth fanwl i'r hyn y mae'r data a'r dystiolaeth yn ei ddweud wrthyhych, er mwyn gwneud synnwyr o'r heriau allweddol a nodwyd gennych.

Ac mae **cydweithio** yn allweddol i hyn oll - mae cyfle gennych bellach i symud eich gwaith partneriaeth i lefel newydd, gan gydweithio drwy gyfrwng adnoddau a darganfod dulliau newydd o ddelio â hen broblemau. Dylai eich asesiad eich helpu i nodi'r cyfleoedd mwyaf ffrwythlon ar gyfer gwneud hyn.

Mae eich tîm cymorth wedi gweithio'n galed i ddatblygu'r asesiad hwn a bydd ar y bobl sy'n cynorthwyo eich cynlluniau llesiant angen eich ymrwymiad a'ch cefnogaeth lwyr. Nodwedddion allweddol yn hyn o beth, fwy na thebyg, fydd yr arweinyddiaeth a ddangosir gennych a'ch parodrwydd i roi lle a chaniatâd i bobl archwilio dulliau newydd o fynd i'r afael â hen broblemau. Yn ei hanfod, mae'r newid diwylliant hwn yn crynhoi natur Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Gan ragweld y bydd gofyn i mi ddarparu cyngor ar y modd y dylech gymryd camau i gyflawni eich cydamcanion, hoffwn weld manylion pellach ynghylch sut byddwch chi'n defnyddio eich asesiad wrth i



chi symud tuag at gynllunio llesiant. Byddwn yn ddiolchgar os gallech roi gwybod i'm swyddfa sut yr ydych wedi ymateb i'n hadborth. Gan gadw hyn mewn golwg, bydd hefyd yn bwysig i chi roi fy adborth i i'r pwyllgor craffu sy'n arwain y gwaith o graffu ar waith y BGC. Nodwyd bod angen ymagwedd fwy adeiladol tuag at graffu a bod hynny'n rhan bwysig o fwyafu'r gweithredu ar y cyd ar lefel leol.

Rwy'n gobeithio bod ein hadborth yn glir ac yn ddefnyddiol yn y cyfnod hwn. Fodd bynnag, mae'n rhaid i mi ailadrodd nad wyf yn gweld datblygu eich asesiad fel digwyddiad unwaith yn unig. Wrth symud ymlaen, byddaf yn rhoi cyfleoedd i'r BGCau rannu gwersi ac arfer gorau. Gobeithio y byddwch chithau'n ymwneud â hynny, er mwyn darparu'r llwyfan gorau i chi gyflawni eich ymrwymadau parhaus o dan y Ddeddf.

Cofion gorau

Sophie Howe  
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

## Adborth gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar

## Adborth oddi wrth Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar Asesiad o Lesiant Lleol Drafft Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Casnewydd

### 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad canlynol yn rhoi adborth Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Casnewydd ar y fersiwn ddrafft o Asesiad Llesiant Casnewydd a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2016. Mae'r adborth hwn yn seiliedig ar yr adolygiad a wnaed gan ein tîm prosiect<sup>1</sup> o'r dogfennau a'r trafodaethau allweddol canlynol:

- Proffil Llesiant Cymunedol Casnewydd 2016
- Rhaglen Ymgysylltu Asesiad Llesiant Casnewydd 2016
- Proffiliau Llesiant Cymunedol 2016 – (sampl o 20): Pillgwenlli; Llyswyry; Rogerstone; Caerllion
- trafodaeth rhwng y tîm prosiect ac aelodau o dîm yr asesiad ar 3ydd Chwefror.

Bwriedir bod yr adborth hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio cyhoeddi'r asesiad yng ngwanwyn 2017 lle bydd hynny'n bosibl, a hefyd y prosesau parhaus o ddatblygu eich asesiad a'ch cynlluniau Llesiant.

Mae'r asesiad wedi cael ei adolygu gan y tîm prosiect gan ddefnyddio set o feini prawf a ddatblygwyd yn arbennig i ffocysu ar agweddau ar waith cynhyrchu, methodoleg a dadansoddi yr asesiad a gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r meini prawf hyn yn ein galluogi i adolygu'r ystod eang o ymagweddau tuag at yr asesiad Llesiant Lleol a ddefnyddiwyd ledled Cymru. Mae hyn hefyd wedi ein galluogi i ddarparu adborth pwrpasol i'r BGCau, gan amlygu cryfderau a meysydd y gellid eu gwella. Bydd yr ymagwedd gyson hon hefyd yn galluogi'r Comisiynydd i nodi materion allweddol ac amlygu cyfleoedd ar gyfer dysgu ar y cyd, ar lefel Cymru gyfan, ar gyfer yr ystod eang o gyrff sector cyhoeddus a chyrrff eraill sy'n ymwneud â chynllunio Llesiant.

Rydym yn deall bod yr Asesiad Llesiant yn broses barhaus, ac y bydd gwaith pellach yn cael ei wneud yn ystod y misoedd sy'n dod, ond mae'n bwysig nodi'r sylwadau canlynol a gweithredu arnynt wrth i'r

---

<sup>1</sup>Dr. Alan Netherwood, Netherwood Sustainable Futures, Dr. Andrew Flynn, Prifysgol Caerdydd a Dr. Mark Lang, Mark Lang Consulting

asesiad llesiant gael ei ddatblygu a'i addasu, ac wrth adeiladu arno i lywio cynllunio llesiant ar draws y BGC.

## 2. Nodau llesiant cenedlaethol

Un o'r materion rydym wedi ei ystyried yw pa mor effeithiol yr adlewyrchwyd y saith nod llesiant cenedlaethol yn yr asesiad, gan fod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gofyn bod BGCau yn dangos sut maent yn cynllunio i fwyafu eu cyfraniad i'r nodau llesiant cenedlaethol. Deallwn y bydd BGCau yn datblygu gwahanol ddulliau o adlewyrchu llesiant; yn achos Casnewydd, llesiant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod cysylltiad clir rhwng y data, y dehongliad ohono a'n dealltwriaeth o bob agwedd ar llesiant yn ein cymunedau.

Mae'r asesiad wedi rhestru'r nodau llesiant ym mhob un o'r 21 o broffiliau cymunedol ac mae hynny'n gadarnhaol. Gellid gwella ar hyn drwy egluro pam mae'r rhain wedi eu cynnwys a'r cysylltiad rhyngddynt a phob proffil. Byddai'n ddefnyddiol cael rhyw eglurhad ynghylch *sut* mae'r materion sy'n codi ym mhob proffil yn cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol neu'n effeithio arnynt, a gellid gwella'r asesiad trwy egluro'r berthynas rhwng yr hyn y mae'r data yn ei ddweud wrthym a'r goblygiadau i'r nodau. Yn ogystal â bod yn fwy eglur ar y mater hwn, gellid cynnig adlewyrchiad cryfach o gydlyniant a chydnerthu cymunedol, a sut mae Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang yn berthnasol i ardal Casnewydd.

## 3. Cynnwys data – ardal a lle

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gofyn bod asesiadau llesiant yn canolbwyntio ar yr ardal a'r 'lle' ac yn adlewyrchu'r amrywiaeth o gymunedau ledled eich ardal. Rydym wedi ystyried i ba raddau y mae cynnwys data eich asesiad yn gwneud hynny.

Yn amlwg, mae darparu Asesiad o Gasnewydd gyfan ac 20 proffil ardal yn rhoi ffocws pendant ar 'le'. Mae hwn yn sail ardderchog ar gyfer gwaith dehongli a dadansoddi pellach ar y ddwy lefel. Thema gyson yn yr adborth hwn yw'r cyfle i ddehongli mwy ar y data a dadansoddi'n fwy yr hyn y mae'r data yn ei ddweud wrthym (ac eithrio adran yr economi a rhannau o adran yr amgylchedd). O ran 'lle', byddai dehongli'r data yn fwy yn ein galluogi i ddeall pa faterion sy'n flaenoriaeth, ymhle, ac arwyddocâd y risg neu'r cyfle, anghydraddoldebau a chyflwr llesiant. Byddai hyn yn galluogi gwell dealltwriaeth o'r materion y bydd angen i'r BGC ymateb ar y cyd iddynt.

Gallech gynnwys hefyd grynodedb o'r seilwaith critigol o ran ynni, dŵr, trafndiaeth ac amddiffyn yr arfordir. Mae hyn yn golygu nid yn unig rhoi disgrifiad, ond dehongliad o'r heriau allweddol a'r cyfaddawdau. Mae'r math hwn o wybodaeth yn allweddol berthnasol i'r BGC, i ddarparu gwasanaethau ac i lesiant cymunedol yn y dyfodol.

#### 4. Cynnwys data - anghenion gwasanaethau cyhoeddus

Credwn ei bod yn bwysig bod gennych ddarlun clir o wahanol anghenion pobl a chymunedau yn awr ac yn y dyfodol, a bod goblygiadau'r rhain yn cael eu deall. Rydym wedi ystyried i ba raddau y mae cynnwys data'r asesiad yn ffocysu ar anghenion gwasanaethau cyhoeddus, o fewn cymunedau ac ar gyfer grwpiau penodol o unigolion.

Un o flaenoriaethau fy swyddfa yw annog cyrff cyhoeddus a BGCau i sicrhau eu bod, yn y lle cyntaf, yn cynnwys pobl a chymunedau mewn ffyrdd sy'n rhoi mwy o ymwybyddiaeth iddynt o brofiadau bywyd pobl o gyrff cyhoeddus, ac yn ail, eu bod yn gweithredu ar sail yr ymwybyddiaeth hon pan fyddant yn gwneud penderfyniadau ac yn darparu gwasanaethau.

Mae'r dehongli a'r naratif cryf ynghylch ceiswyr lloches, mudwyr, cymunedau sipsiwn a'r pwysau dilynol ar wasanaethau a welir ym Mhroffil Casnewydd yn gadarnhaol iawn. Byddai'r asesiad ar ei ennill petai dadansoddiad tebyg o'r pwysau ar wasanaethau *yn gyffredinol* ar draws ardal Casnewydd ac ym *mhob* rhan o'r boblogaeth. Gellid defnyddio'r math hwn o ddadansoddiad a dehongliad ar draws y gwahanol adrannau a phroffiliau, gan gynnwys anghenion a darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus penodol yn yr 20 Proffil Cymunedol.

Er bod cyfeiriad at yr Asesiad Poblogaeth sy'n ofynnol gan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, byddai'n fanteisiol petai'r asesiad yn rhoi rhagor o fanylion am y cysylltiadau hyn. Nodir bod y mater hwn wedi'i drafod yn ystod yr alwad ffôn gyda thîm yr asesiad. Cadarnhaol hefyd yw gweld bod yr ymgynghori wedi ffocysu ar wasanaethau cyhoeddus, ac yn benodol ar yr hyn yr hoffai dinasyddion weld mwy a llai ohono. Byddai cynnwys crynodeb a dadansoddiad cliriach o'u hawgrymiadau yn helpu'r BGC i ddeall ble mae bylchau a chryfderau yn y ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus.

## 5. Dadansoddiad meintiol ac ansoddol

Rydym yn cydnabod her cydbwysu data, sylwadau a thystiolaeth er mwyn dod i ddealltwriaeth gyflawn o lesiant cymunedau ac unigolion yn y tymor byr, y tymor canol a'r tymor hir. Un o'n prif ystyriaethau fu i ba raddau y mae dulliau a dadansoddi meintiol ac ansoddol yr asesiadau yn rhoi darlun cyffredinol o lesiant amgylcheddol, economaidd, diwylliannol a chymdeithasol, ynghyd â sylwebaeth gychwynnol ar oblygiadau'r 'darlun' hwn i gymunedau h.y. beth sydd o bwys mewn gwirionedd?

Mae'r asesiad yn darparu set ddata fanwl, a gyflwynir yn ardderchog, ynghylch Casnewydd yn gyffredinol ac ar gyfer yr 20 Proffil Cymunedol. Mae hyn i'w ganmol. Mae'n glir bod llawer wedi'i fuddsoddi yn yr adnodd hwn gan ddefnyddio data LSOA (Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is) ac MSOA (Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol).

Fel y trafodwyd ym mhwynt 3 uchod, mae'r asesiad yn darparu casgliad cyson a helaeth o ddata lleol ond yn gyffredinol, gellid dehongli, dadansoddi a chyfosod y materion allweddol yn fwy. Mae angen dehongli mwy ar y rhestrau a'r tablau er mwyn nodi a chyfleu'r materion hollbwysig i lesiant ar bob lefel. Mae data ansoddol o'r ymgynghori wedi'i ddefnyddio'n dda yn y proffiliau: ond eto, mae diffyg dehongli data yn golygu ei fod yn anoddach penderfynu pa faterion llesiant yw'r rhai pwysicaf i ymdrin â hwy.

Mae dechrau pob adran â chwestiwn yn gadarnhaol. Yn gyffredinol, byddai'r adrannau hyn yn elwa o fod yn fwy eglur ynghylch pa mor *arwyddocaol* yw'r materion llesiant a amlygwyd i Gasnewydd a'r 20 proffil cymunedol, a goblygiadau hynny i wasanaethau cyhoeddus. Gwneir hyn yn dda mewn manau e.e. y naratif ynghylch yr economi leol ac ynghylch llifogydd. Byddai'r ymagwedd hon yn helpu'r darllenydd i nodi anghydraddoldebau a pha faterion ac ardaloedd daearyddol penodol y mae angen rhoi sylw iddynt wrth gynllunio llesiant.

Mae'r asesiad yn ffocysu ar ddangosyddion, a chanlyniad hyn, i bob golwg, yw mai dangosyddion sy'n gyrru'r naratif, yn hytrach na'r heriau llesiant y mae'r asesiad yn ceisio eu dangos. Mae'n arwain hefyd at gruglwyth o wybodaeth sy'n rhwystro'r asesiad rhag nodi'r materion hollbwysig i lesiant. Un enghraifft yw Addysg, lle ceir ystod o ddangosyddion yn mesur perfformiad addysgol ond heb ddadansoddiad o'r materion sy'n arwyddocaol ym myd addysg yng Nghasnewydd a ble mae'r rhain i'w teimlo fwyaf. Mae'n amlwg bod 'pennawd' ymhlyg yn y data ond byddai'n elwa o fod yn fwy clir. Byddai rhoi sylw i'r cydbwysedd hwn rhwng y data a'r negeseuon allweddol o fantais i'r asesiad.

Mae'r paragraffau canlynol yn cynnig adborth mwy penodol ar bob thema.



**Llesiant economaidd** – mae'r thema hon yn cynnig dehongliad *ardderchog* o'r data i ddisgrifio'r heriau allweddol i economi Casnewydd, ei rôl yn y rhanbarth, gan gydbblethu tueddiadau yn y dyfodol a rôl amddifadedd yn yr ardal. Yn yr achos hwn, mae'r data yn cefnogi'r naratif sy'n disgrifio beth mae'r data yn ei ddweud wrthym. Byddai mabwysiadu dull ac ymagwedd tebyg mewn rhannau eraill o'r dogfennau yn gwella Proffil Casnewydd a'r Proffiliau Cymunedol.

**Llesiant cymdeithasol** – mae disgrifiad clir iawn a thystiolaeth o benderfynyddion ac ysgogwyr llesiant cymdeithasol o ran iechyd. Dangosir hyn yn ofodol, ond byddai disgrifiad mwy helaeth o sut mae'r materion cyffredinol hyn yn benodol berthnasol i Gasnewydd ac ardaloedd Casnewydd yn ein helpu i ddeall beth yw'r materion hollbwysig ac ymhle y mae anghydraddoldeb e.e. mynediad at ddeiet iach. Byddai ymagwedd gyson at 'leoleiddio' y materion llesiant hyn o gymorth yn yr adran hon. O ran y materion eraill sy'n cael sylw yn yr adran hon: digartrefedd, tai a diogelwch cymunedol - mae'r naratif yn ffocysu'n neilltuol ar ddangosyddion (gweler y sylwadau uchod) a byddai eglurhad cliriach ar arwyddocâd y materion hyn i Gasnewydd a'i hardaloedd o fantais.

**Llesiant amgylcheddol** - mae'r adran hon yn cynnig naratif cadarn sy'n cwmpasu Casnewydd gyfan - ac mae'r rhan ynghylch llifogydd yn arbennig o dda - ond mae angen i arwyddocâd materion allweddol mewn meysydd eraill gael ei gyfleu yn gliriach, er enghraifft, a oes digon o fannau agored yng Nghasnewydd, a yw hwn yn fater hollbwysig? Gellid egluro hyn yng nghyswllt pob mater sy'n cael sylw yn yr adran hon: effeithiau'r newid yn yr hinsawdd; y tirlun; dŵr; aer; ôl troed carbon ac ecolegol. Mae'r ffaith bod yr adran hon yn ffocysu ar *asedau* Casnewydd a'u heffaith gadarnhaol ar lesiant yn gadarnhaol. Gellid defnyddio'r ymagwedd hon i gryfhau rhannau eraill o'r asesiad (gweler y sylwadau ym mhwynt 6.)

**Llesiant diwylliannol** - gellid gwella'r adran hon drwy gynnig disgrifiad cyffredinol o lesiant diwylliannol (fel y gwnaed yn yr adran economaidd) drwy gyfrwng y dangosyddion. Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym am y Gymraeg; y celfyddydau; chwaraeon; a diwylliant? Byddai'r adran hon yn elwa o well disgrifiad a dealltwriaeth o'r asedau diwylliannol yng Nghasnewydd – gan gynnwys, er enghraifft, natur a phriodweddau ei cherddoriaeth, ei bwyd a byd y celfyddydau.



## 6. Heriau allweddol

Mae'n bwysig bod asesiadau llesiant, wrth asesu cyflwr llesiant, yn canolbwyntio ar yr heriau allweddol i lesiant yn y tymor byr, y tymor canol a'r tymor hir, yn ogystal ag ar y nodweddion cadarnhaol ac asedau yn yr ardal. Mae hyn yn cynnwys cyfaddawdu rhwng y gwahanol nodau llesiant, tensiynau, a diffygion yng Nghasnewydd.

Gellid gwella'r asesiad a'r Proffiliau cymunedol trwy ddod i ddeall yr asedau yn ogystal â'r diffygion. Yn ogystal ag asedau ffisegol fel yr amgylchedd a'r tirlun, gellid adlewyrchu asedau eraill fel asedau diwylliannol (gweler pwynt 5), ond hefyd asedau cymdeithasol, fel rhwydweithiau cymunedol, gwirfoddoli, yr economi anariannol, rhwydweithiau busnes, cyllid cymunedol. Mae'r rhain yn cael effaith gadarnhaol ar lesiant ac yn cyfrannu at gydlyniant a chydnerthu cymunedol. Mae'r rhain yn nodweddion pwysig i lesiant lleol ac mae angen rhoi proffil uwch iddynt yn yr asesiad.

Yn gyffredinol, mae'r dadansoddiad i bennu pa heriau sy'n rhai tymor byr, tymor canol a thymor hir a'r effaith a gânt ar lesiant, yn gyfyngedig, er enghraifft; cynnal a chadw ffyrdd yn y tymor hir; tlodi ymhlith gweithwyr; tlodi bwyd; diogelwch ffynonellau ynni; diogelwch ffynonellau dŵr. O gadw mewn cof y rhagolygon o ran y cyni a wynebir gan y gwasanaethau cyhoeddus yn y tymor canol, a Brexit - beth allai'r rhain ei olygu i Gasnewydd, ac i gymunedau penodol yn y meysydd polisi hyn? Er na fydd data ar gael o bosibl, mae'r rhain yn faterion allweddol ar gyfer llesiant yn y tymor canol, a byddai'r asesiad yn elwa o gydnabod y rhain a heriau allweddol (eraill). Disgrifiwyd tensiynau a chyfaddawdau yn dda, er enghraifft, ar fater llifogydd a diwygio lles, a dylid efelychu hyn mewn rhannau eraill o'r asesiad.

## 7. Ymgysylltu, ymgyfrannu a chydweithio

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dangos yn glir bod cydweithio ac ymgyfrannu yn ddau o'r pum dull o weithio y mae angen i'r BGCau eu defnyddio'n gyson yn eu gwaith. O ganlyniad, bu gennym ddiddordeb arbennig yn lefel a dulliau ymgysylltu, ymgyfrannu a chydweithio ar draws y bartneriaeth wrth gynhyrchu'r asesiad, gan gynnwys ymgysylltu â chymunedau, y cyhoedd, y trydydd sector a sefydliadau sector preifat.

Mae'n braf gweld yr ymgysylltu a fu ag ystod eang o randdeiliaid yn adroddiad y *Rhaglen Ymgysylltu* a'r ystod o dulliau eraill a ddefnyddiwyd i gasglu data meintiol ac ansoddol er mwyn llywio'r asesiad.

Ar hyn o bryd, nid yw'n glir pwy gynhaliodd yr asesiad a phwy allai ddefnyddio'r gwaith wrth symud ymlaen a thrafodwyd hynny yn ystod yr alwad ffôn gyda thîm yr asesiad. Gellid gwella'r proffiliau Cymunedol drwy gynnwys disgrifiad byr o'r broses ymgysylltu, a thynnu sylw at y cydweithio a fu rhwng partneriaid y BGC ac eraill o ran cyfrannu at yr asesiad hyd yn hyn. Gellid disgrifio rolau'r partneriaid statudol a'r gwaith rhanbarthol ehangach a wnaed drwy GSWAG.

Nid yw'n glir yn yr asesiad i ba raddau y cysylltwyd neu yr ymgynghorwyd â'r sector preifat a'r trydydd sector ynghylch llesiant yn yr ardal. Yn amlwg, mae hyn yn bwysig o ran cael eu sylwadau ar bob agwedd ar lesiant, ond mae'n arbennig o bwysig o ran yr economi leol, cydlyniant cymunedol a darparu gwasanaethau cyhoeddus ar y cyd yng Nghasnewydd. Mae angen bod hyn naill ai'n cael ei adlewyrchu yn fwy pendant yn yr asesiad, os bu ymgynghori ac ymgysylltu â'r sectorau hyn, neu bydd angen mynd i'r afael â hyn mewn gwaith yn y dyfodol ar yr asesiad a'r Cynllun. Nodir y trafodwyd cynlluniau i ymgysylltu â'r sectorau hyn yn ystod yr alwad ffôn gyda thîm yr asesiad.

## 8. Integreiddio

Un o nodau allweddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw datblygu integreiddio ar bob lefel ar draws y sector cyhoeddus. Credwn ei bod yn bwysig deall y gydberthynas rhwng llesiant amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol. O ganlyniad, rydym wedi bod yn awyddus i ystyried faint o integreiddio sy'n bodoli rhwng polisi traddodiadol a seilos sefydliadol wrth gynhyrchu'r asesiad.

Byddai mwy o eglurder ynghylch dull cynhyrchu'r asesiad a deall natur y cydweithio [gweler pwynt 7] yn fodd i ni ddeall i ba raddau y mae'r gwaith wedi integreiddio ac yn torri ar draws themâu a sefydliadau. Mae'n amlwg bod y Cyngor wedi chwarae rôl bwysig a mynd i drafferth mawr i ddatblygu'r adnodd hwn. Beth yw rôl y sefydliadau eraill ar y BGC a beth fu natur eu cyfraniad?

Mae integreiddio poliso yn faes y dylech roi ystyriaeth bellach iddo wrth i chi gwblhau eich asesiad ar gyfer ei gyhoeddi ac wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant. Mae lle i integreiddio rhagor ac ymchwilio ymhellach i'r berthynas rhwng polisi a heriau ym mhob thema. Prin i bob golwg yw'r dystiolaeth bod y data o bob adran wedi cael ei ystyried ochr yn ochr â data'r lleill, neu bod ystyriaeth wedi'i rhoi i gydberthnasoedd, er bod rhyw sôn am bwysigrwydd yr amgylchedd ar draws yr adrannau. Mae'n bwysig bod y data a restrir yn yr asesiad yn cael ei archwilio ar draws y seilos traddodiadol er mwyn dehongli beth mae hyn yn ei olygu i lesiant yn yr ardal.

## 9. Rhagwelediad a thueddiadau'r dyfodol

Un o heriau allweddol y ddeddfwriaeth yw ystyried llesiant yn y tymor byr, y tymor canol *a'r tymor hir* trwy gydol proses yr asesiad a'r Cynllun. Mae gennym ddiddordeb yn lefel y rhagwelediad a'r defnydd a wneir o ddadansoddi tueddiadau'r dyfodol wrth gynhyrchu'r asesiad ynghyd â chydabyddiaeth o lesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Mae rhai enghreifftiau da yn yr asesiad o ddefnyddio data tymor hir ynghylch llifogydd, poblogaeth sy'n heneiddio, newid economaidd a newid yn yr hinsawdd. Roedd yn galonogol gweld cwestiwn ynghylch beth hoffai pobl weld mwy neu lai ohono ymhen 20 mlynedd, fel rhan o'r ymgynghori.

Yn gyffredinol, fodd bynnag, mae angen rhoi llawer mwy o sylw i effaith bosibl tueddiadau tymor hir ar Gasnewydd o dan y pedair thema ac yn y Proffiliau Cymunedol; cafwyd rhywfaint o drafodaeth ynghylch heriau gwneud hynny yn ystod yr alwad ffôn gyda thîm yr asesiad. Mae hyn yn rhywbeth y byddem yn disgwyl ei weld yn gwella wrth i'r asesiad ddatblygu ac wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant h.y. pa gymunedau sy'n arbennig o fregus neu gydnerth yn y tymor hir ac ym mha ffordd y maen nhw'n fregus neu'n gydnerth?

Gellid mabwysiadu ymagwedd syml er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn. Gallai crynhoi'r heriau yn y tymor byr, y tymor canol a'r tymor hir ar gyfer pob adran (gweler hefyd bwynt 6), gan nodi ymhle y mae goblygiadau arwyddocaol posibl i'r ardal, a'r bylchau yn eich dealltwriaeth o dueddiadau tymor hir, helpu'r BGC i flaenoriaethu'r heriau hollbwysig sy'n galw am weithredu ar y cyd.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu ei hadroddiad ar Dueddiadau'r Dyfodol ym mis Mai 2017. Y bwriad ar hyn o bryd yw cynnwys 6 thema allweddol sef: Poblogaeth, Economi, Adnoddau Naturiol a'r Newid yn yr Hinsawdd, Iechyd, Defnydd Tir a Seilwaith, a Newid Cymdeithasol. Wrth iddo ddatblygu bydd angen i'ch asesiad roi sylw i'r data a gynhwysir yn hwn, ond dylai anelu at roi pwyslais cliriach ar heriau'r tymor hir i lesiant yn yr asesiad cychwynnol a gyhoeddir yn y misoedd nesaf.

## 10. Materion Trawsffiniol

Mae integreiddio a chydweithio'n ganolog i gyrrff cyhoeddus pan fyddant yn cymhwyso egwyddor datblygu cynaliadwy i'w gweithgareddau. Un o'n nodau fu adolygu i ba raddau y mae'r asesiad wedi ystyried materion trawsffiniol ar gyfer gweithredu rhanbarthol a chenedlaethol.

Byddai dadansoddiad manylach o'r materion allweddol rhanbarthol a thrawsffiniol sy'n effeithio ar Gasnewydd yn fanteisiol, i lywio proses y cynllun llesiant. Gallai'r asesiad ddarparu eglurhad cliriach o 'rôl' yr ardal o fewn y rhanbarth, a bydd yn bwysig hefyd fod y BGCau yn ystyried casgliadau asesiadau llesiant lleol eu cymdogion wrth fynd ati i ddatblygu eu cynllun. Mae'r berthynas â GSWAG yn enghraifft gadarnhaol o gydweithio rhanbarthol, a bydd yn ddiddorol gweld yr asesiadau yn y rhanbarth yn dylanwadu ar ei gilydd trwy broses y cynllun llesiant.

Byddai'n ddefnyddiol gweld peth dehongli ar sut gallai'r Prosiect Dinas-ranbarth effeithio ar *bob* agwedd ar lesiant cymunedol ar draws Casnewydd. Er bod yr effeithiau penodol yn aneglur ar hyn o bryd, mae'n amlwg y bydd yn dylanwadu ar gydlyniant, cydraddoldeb, cydnerthedd ac ati. Dylid cynnwys dylanwad posibl y prosiect ar gyfer pob adran o'r asesiad, y tu hwnt i'r adran 'Llesiant economaidd', gan y bydd yn debygol o gael effeithiau lluosog ar draws gwahanol rannau o Gasnewydd. Gellid bwrw rhagor o oleuni hefyd ar arwyddocâd patrymau cymudo i lesiant yng Nghasnewydd, materion hollbwysig i'r seilwaith trafndiaeth a natur y gydberthynas â Chaerdydd, Caerffili, Torfaen, Blaenau Gwent a Sir Fynwy, a phartneriaid rhanbarthol eraill.

## 11. Ansawdd data a bylchau data

Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw sicrhau y bydd cynllunio llesiant yn broses barhaus lle bydd y sylfaen o dystiolaeth yn gwella'n raddol dros amser i alluogi cyrff cyhoeddus ac eraill i ddeall a chynllunio ar gyfer llesiant yn eu cymunedau. Rydym yn awyddus i ddeall ymagwedd y BGCau at ansawdd data a bylchau data yn ystod yr asesiad a materion data wrth symud ymlaen.

Mae hwn yn faes lle mae angen gwella'r broses asesu yng Nghasnewydd, gan mai ychydig o gyfeiriadau sydd ar hyn o bryd at fylchau data, neu fyfyrion ar ansawdd data. Byddai adran sy'n crynhoi'r prif fylchau ac anghenion data yn fanteisiol er mwyn i'r BGC ddeall sut y gallai wella ei ddealltwriaeth ac ymhle y gallai fod angen adnoddau. Byddai hyn yn galluogi'r BGC i adeiladu ar waith presennol a chynllunio ar gyfer gwella ansawdd data yn ystod y flwyddyn nesaf a'r tu hwnt, gan helpu partneriaid y BGC i adeiladu ymchwil a rheoli data i mewn i'w cynlluniau busnes a chorfforaethol.

Bydd dadansoddiad cyffredinol o'r math hwn yn bwysig hefyd ar gyfer deall a oes unrhyw batrymau o ran anghenion data ar draws y pedair thema, a'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r bylchau hyn. Byddai hefyd yn rhoi syniad i Lywodraeth Cymru, y Swyddfa ac Uned Ddata Cymru ynghylch anghenion y BGC.

## 12. Defnyddio egwyddor datblygu cynaliadwy

Mae'r canllawiau statudol yn gosod cyfrifoldeb ar y BGCau i *fwyafu* eu cyfraniad i'r nodau llesiant trwy ddefnyddio egwyddor datblygu cynaliadwy yn eu dull o weithio. Rydym wedi bod yn awyddus i ddeall sut mae egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum dull o weithio wedi cael eu defnyddio yn ystod asesiadau llesiant.

Mae'n amlwg bod elfennau o'r dull a ddefnyddiwyd gennych sy'n dangos sut yr ystyriwyd y pum dull o weithio fel rhan o broses datblygu'r asesiad.

- *Ymgysylltu ac Ymgysylltiad* – trwy'r gweithgareddau a ddisgrifiwyd yn y Rhaglen Ymgysylltu (pwynt 7)
- *Y tymor hir* – defnyddio data hawdd ei gael ar yr hinsawdd, tai a'r boblogaeth (pwynt 9)
- *Ataliaeth* – trafodir ymyrraeth yn y blynyddoedd cynnar yn yr adran ar Gerrig Milltir Datblygiadol yn y bennod Llesiant Cymdeithasol.

Fodd bynnag, nid oes llawer o dystiolaeth bod egwyddor datblygu cynaliadwy wedi cael ei ddefnyddio fel dull gweithredu yn yr Asesiad hwn. Gweler y sylwadau ar *Integreiddio* (pwynt 8) a *Chydweithio* (pwynt 7). Mae cyfeiriadau at y 5 dull o weithio, ond byddai arwydd cliriach o arwyddocâd yr egwyddorion hyn a'r defnydd a wneir ohonynt yn yr asesiad yn ddefnyddiol - h.y. sut mae'r egwyddor wedi newid ymagwedd y BGC at y gwaith hwn, a sut bydd yr egwyddor yn llywio'r broses cynllunio llesiant.

## 13. Edrych ymlaen at gynhyrchu'r cynllun

Mater hollbwysig i'n hadolygiad o'r asesiad hwn oedd ystyried a oedd y dogfennau'n eglur ynghylch sut byddai'r gwaith yn cael ei symud yn ei flaen i ddatblygu amcanion lleol a chynhyrchu cynllun.

Mae hwn yn faes lle credwn y gallai'r asesiad fod yn fwy eglur ynghylch y cam nesaf, a sut gall unigolion a sefydliadau barhau i ymgysylltu. Cydnabyddir bod y mater hwn wedi cael ei drafod yn ystod yr alwad ffôn gyda thîm yr asesiad, a bod cynllun dros dro yn debygol o gael ei drafod gan y BGC ym mis Mawrth.

## 14. Trosolwg

Mae'r dadansoddiad dogfennol uchod wedi nodi nifer o feysydd lle credwn y gallai'r asesiad gael ei gryfhau, yn y tymor byr, cyn iddo gael ei gyhoeddi ac yn y tymor canol wrth i'r dadansoddiad o'r ymateb ddatblygu ac wrth i'r Cynllun gael ei gynhyrchu. Ar ben hynny, trefnwyd galwad ffôn i ni fedru trafod yr asesiad gydag aelodau o dîm y BGC oedd wedi ymwneud â'r broses. Bwriad yr alwad ffôn oedd rhoi cyfle i ni egluro/archwilio materion arbennig a amlygwyd yn ein hadolygiad cychwynnol a galluogi'r BGC i roi sylw i faterion sy'n rhan o gyd-destun ehangach cynhyrchu'r asesiad.

Mae nifer o themâu eang, cylchol clir wedi dod i'r amlwg o'n hadolygiad a'n sgwrs. Mae'n amlwg bod lefel a chyflwyniad y data trwy'r dogfennau Proffil yn arbennig o gadarnhaol, fel y mae'r data a ddarparwyd ar gyfer 20 ardal gymunedol ledled Casnewydd. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r strwythur hwn yn darparu sylfaen gref i'r BGC ddechrau blaenoriaethu materion ar gyfer y cynllun llesiant ar lefel leol a phenderfynu pa asesiadau pellach sydd eu hangen.

Credwn fod angen mynd i'r afael â'r materion canlynol er mwyn gwella'r asesiad. Mae'r rhain yn berthnasol i Gasnewydd gyfan ac i ardaloedd cymunedol unigol:

*Dehongli'r data* – mwy o eglurhad ynghylch sut mae'r materion a nodwyd drwy'r data yn effeithio ar lesiant unigolion a chymunedau ledled Casnewydd

*Integreiddio ar draws themâu* – mwy o ffocws ar y gyberthynas rhwng llesiant amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd ledled Casnewydd

*Cyd-destun rhanbarthol* – mwy o ddadansoddi ar le Casnewydd yn y rhanbarth a'i chydberthynas ag ardaloedd a chymunedau cyfagos, ac effaith hyn ar lesiant, gan gynnwys dylanwad posib y prosiect Dinas-ranbarth

*Heriau* – darparu dadansoddiad cliriach o'r heriau (a'r cyfleoedd) sy'n wynebu llesiant mewn cymunedau arbennig ar draws Casnewydd yn y tymor byr, y tymor canol a'r tymor hir

*Tueddiadau'r dyfodol* – rhoi mwy o sylw i effaith bosibl tueddiadau tymor hir ar lesiant yng Nghasnewydd gyfan ac i gymunedau arbennig

*Symud ymlaen* – rhoi disgrifiad eglurach o'r modd y bwriedir defnyddio data'r Asesiad, sut bydd bylchau data'n cael eu rheoli a sut bydd cynllunio llesiant yn symud yn ei flaen yng Nghasnewydd

*Nodau llesiant* – dealltwriaeth gliriach o'r berthynas rhwng y materion a nodwyd a'r saith nod llesiant cenedlaethol.

Cydnabyddir y gellir mynd i'r afael â rhai o'r rhain yng ngweithgareddau arfaethedig y BGC rhwng nawr ac adeg cyhoeddi'r asesiad yn derfynol, tra gellid mynd i'r afael â rhai ohonynt wrth i'r asesiad esblygu a chael ei gadw fel dogfen 'fyw'.

Gobeithiwn y bydd y materion a godwyd uchod yn llywio gwaith parhaus y BGC fel bod yr elfennau hyn yn cael eu hadlewyrchu'n gryfach wrth i'r BGC symud ymlaen.